

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWDYD AR DDYDD LLUN 7 IONAWR 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

1. YN BRESENNOL: Y Cyngorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Tim Baker, Nick Smith, Rhian Jones, Gruff Jones, Dave Ritchie, Jackie Bird, Ken Tams, Bob Barton (o 8.15 y.h. ymlaen) a'r Clerc.

2: YMDDIHEURIADAU: Dim.

3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

A. Y Cyngorwyr Lyn Evans, Tim Baker, Dave Ritchie a Rhian Jones – eitem 7 ar yr agenda.

B. Y Cyng. Lyn Evans – eitem 13C ar yr agenda.

4. CYFEIRIWR CYMUNEDOL SIR DDINBYCH.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Rebecca Szekely, Cyfeiriwr Cymunedol Sir Ddinbych, i'r cyfarfod. Eglurodd Mrs Szekely natur ei swydd yn Sir Ddinbych gyda chymunedau Rhuthun, Llanarmon, Llanbedr a Llandyrnog. Partneriaeth arloesol rhwng 'Age Connects Wales' a'r Groes Goch Brydeinig, gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yw Gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol a Chyfeirwyr Cymunedol Sir Ddinbych. Mae Mrs Szekely ar gael i fynychu mudiadau a digwyddiadau lleol i hyrwyddo a rhoi gwybodaeth am ei gwaith, a rhoddodd daflenni gwybodaeth er budd y gymuned leol i'r Cyngor. Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Szekely am ddod i'r cyfarfod.

5. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.

Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 3 Rhagfyr 2018 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Eglwys Hynafol Sant Pedr – Mae Ysgrifennydd y Pwyllgor, Guy Alford, wedi anfon e-bost i'r Clerc gyda'r cyfeiriad ar gyfer y siec grant am dorri lawnt y fynwent.

B. Cylchgrawn Link – Mae'r Cyng. Tim Baker wedi cysylltu â Golygydd Link, wnaeth y sylwadau canlynol:-

1. Maent yn brin iawn o gyfranwyr i'r cylchgrawn chwarterol.
2. Nid yw Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbedr yn anfon eitem chwarterol.
3. Maent yn brin iawn o ddsbarthwyr ar gyfer y cylchgrawn.

Penderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:-

- 1: Gwneud rhestr lawn o holl aelwydydd Llanbedr fel y gellir postio cyfrol y Gwanwyn, ail ddsbarth, i bob cartref yn y ward.
2. Cynnwys slip i unrhyw un nad yw am dderbyn cylchgrawn bellach.
3. Rhoi cyfarwyddyd i'r Cadeirydd gyflwyno adroddiad chwarterol Cyngor Cymuned Llanbedr.
4. Fe wneir ymdrech i recriwtio ddsbarthwyr newydd, ac ymholi faint fydd rhaid talu iddynt (os fydd rhaid) am y gwaith.

C. Diweddariad am yr arwydd ffordd – Mae'r Cyngorwyr Rhian Jones wedi cael dyfynbris ar gyfer ei adnewyddu. Mae hi'n aros am un dyfynbris arall, a bydd yn adrodd yn ôl yn ystod cyfarfod mis nesaf.

7. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â'R GANOLFAN GYMUNEDOL.

A. Cyflwynodd y Cyng. Tim Baker Gyfrif Incwm a Gwariant fel cofnod o gostau gweithredu "Our Griffin/Griffin Ni". Mae balans credyd o £ 340.13 yn y Cyfrif Undeb Credyd a agorwyd gyda'r benthyciad o £1,500 a roddwyd gan y Cyngor Cymuned i'w ddefnyddio fel cyfalaf gweithio. Am y tro, bydd hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen ar gyfer unrhyw dreuliau sydd heb eu talu.

B. Benthyciad gan Gyngor Cymuned Llanbedr – mae'r Clerc wedi cael cyngor cyfreithiol gan Mr Paul Egan (Un Llais Cymru) - o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Deddf Darpariaethau Amrywiol)1976) – sy'n galluogi Cyngor Cymuned i gyfrannu drwy roi benthyciad neu grant at dreuliau sefydliad gwirfoddol sy'n darparu

cyfleusterau hamdden y gallai'r Cyngor Sir eu darparu. Gan fod y pŵer hwn yn galluogi'r Cyngor i wneud grantiau yn ogystal â benthyciadau, byddai'n bosibl trosi'r benthyciad yn grant. Pasiwyd yn unfrydol gynnig i drosi'r benthyciad yn grant.

8. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â GWEFAN Y CYNGOR.

A. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Rhian Jones am ddiweddarau'r wefan.

B. Nodwyd nad yw'r Cyng. Jackie Bird wedi cyflwyno ei phroffil Cynghorydd eto.

C. Mae'r Cyng. Bob Barton am gysylltu â Webmaster i ofyn am ddyfynbris i ddiweddarau a moderneiddio'r Wefan.

9. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â'R GRŴP CYSWLLT CYMUNEDOL/CYFARFOD CYHOEDDUS.

A. Datgelodd y Cyng. Tim Baker ei syniadau parthed dod a phob grŵp yn y pentref at ei gilydd. Bydd yn cyflwyno cynnig yn y cyfarfod nesaf.

B. Amlinellodd y Cadeirydd gyfarfod Neuadd Bentref a fynychodd ef a'r Cynghorydd Tim Baker, - cyfarfod a drefnwyd gan y Cyng Sir, Huw Williams – ar 17 Rhagfyr 2018.

Roedd y canlynol yn bresennol: Huw Williams (Cyngor Sir Ddinbych), Ron Bell (Gofalwr) a Helen Williams (Cadwyn Clwyd).

Nodwyd amcan y cyfarfod fel a ganlyn: "Datblygu Neuadd y Pentref fel Ased Cymunedol yn y dyfodol".

Ydi hi'n werth mynd ar drywydd hyn?

I ddechrau, byddai'n rhaid trefnu fod perchnogaeth y neuadd yn cael ei throsglwyddo i'r Gymuned.

Cwestiynau: Ei throsglwyddo oddi wrth bwy? Os mai Cyngor Sir Ddinbych yw'r perchennog, beth yw gwerth llyfr presennol y neuadd?

Pa gostau mae Cyngor Sir Ddinbych yn eu talu ar hyn o bryd? Beth yw tâl trosglwyddo gwerth asedau?

Pwy fyddai'n talu costau cyfreithiol y trosglwyddiad – Pwyllgor Neuadd y Pentref yntau Cyngor Sir Ddinbych?

Cyn i'r Cyngor Cymuned ymrwymo ei hun i'r mater hwn, byddem angen gweld:

- Cyfansoddiad Neuadd y Pentref (os oes un)
- Cyfrifon y Neuadd - y tair blynedd diwethaf?
- Defnydd a chyfranogiad wythnosol cymuned Llanbedr
- Treuliau rhedeg y Neuadd
- Pa fuddsoddiad fyddai ei angen dros y tair blynedd nesaf i gynnal y Neuadd yn ei chyflwr presennol?

Os daw hyn yn ased i'r Cyngor Cymuned, dylai un o'r Aelodau fod ar bwyllgor y Neuadd.

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor uchod ar Ddydd Llun 14 Ionawr 2019.

10. ANGHENION PRESEPT Y CYNGOR AR GYFER 2019/20.

Rhodddwyd cyfle i'r Cyngorwyr i weld cyfrifiadau drafft y presept cyn y cyfarfod. Ar ôl trafod, cytunwyd ar ffigwr terfynol o £15,000.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng Bob Barton am yr oriau lawer o waith caled a dreuliodd yn darparu'r ddogfen gynhwysfawr ar gyfer y presept.

11. LWFANSAU AELODAU'R CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19.

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol wedi penderfynu bod hawl i Aelodau'r Cyngor gael £150 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i wneud iawn am eu hamser a threuliau eraill megis galwadau ffôn, postio ac ati yn rhinwedd eu swydd fel Cyngorwyr.

Gall pob Cyngorwyr eithrio ei hun o'r penderfyniad fel y mynno. Mae'r Clerc a'r Cyng. Bob Barton wedi llunio ffurflen er mwyn i bob Cyngorwyr enwebu pa opsiwn y mae am ei ddewis.

12. MATERION ARIANNOL.

A. Cyfrifon banc:-

1. Cyfrif Cyfredol gyda'r Nat West - £20,801.90.

2. Cyfrif Cadw gyda'r Nat West - £9,333.25.

B. Derbyniad terfynol presept 2018/19 - £8,500.00.

C. Awdurdodi taliad bil:-

1. Mrs Brenda Jones – cyfieithu'r cofnodion - £40.00

2. Y Rheithor a Wardeiniaid yr Eglwys, Eglwys Llanbedr am dorri lawnt mynwent Eglwys Hynafol Sant Pedr - £150.00

13. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais 16/2018/1176 – Tystysgrif datblygu cyfreithlon presennol ar gyfer newid defnydd tir drwy osod carafan sefydlog fel llety gwyliau yn fferm Rhesgoed, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.

B. Cais 16/2018/1137 – Codi 38 annedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau, darparu man agored a gwaith cysylltiedig ar dir ger Yr Hen Reithor, Llanbedr Dyffryn Clwyd. Cytunodd yr Aelodau gyda sylwadau'r Cyng. Nick Smith, a bydd yntau'n eu cyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych fel a ganlyn:-

Bydd y cynllun arfaethedig yn newid naws y pentref, gan mai dyma fydd y datblygiad newydd mwyaf i'r pentref ers sawl blwyddyn. Mae'r Cyngor Cymuned yn nodi bod y safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun Lleol. Ac mewn egwyddor, rydym yn croesawu datblygiad y safle hwn ar gyfer tai fforddiadwy – gan y bydd yn cynyddu bywiogrwydd a hyfywedd y pentref a'i fwynderau. Fodd bynnag, manteisiodd y Cyngor Cymuned ar y cyfle i gyflwyno adborth cyn-ymgeisio adeiladol ar y cynigion, ac rydym wedi'n siomi fod ein sylwadau i gyd bron wedi cael eu hanwybyddu. Ni wnaethpwyd unrhyw addasiadau i'r cynllun ac ni ddarparwyd cyfiawnhad ystyrion am y methiant yma. Heblaw datganiad bod y cynllun eisoes wedi'i gytuno gyda'r Cyngor Sir.

Mae Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd yn gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:

1. Mae'n amlwg mai patrwm datblygu'r pentref yw tai yn wynebu'r ffordd. Mae angen newid y cynllun fel bod talwyneb clir o dai at y ffordd bresennol, yn hytrach na chorneli, strydoedd pengaead neu adeiladau iwtiliti. Ni fydd yr anheddau newydd yn integreiddio gyda'r pentref trwy droi eu hochr ato, ac mae integreiddio'n holl bwysig ar gyfer tai fforddiadwy os ydym am greu cymunedau cymysg eu naws.
 2. Dylai'r man agored cyhoeddus (MAC) arfaethedig gael ei integreiddio i'r datblygiad. Ni fydd lleoli'r MAC yn y cefn yn annog gwyliadwriaeth naturiol. Cynllunio gwael heb unrhyw gyfiawnhad drosto ydi hyn, a dylid ei wrthod. Fel y gwelir, mae'n ymddangos mai llinell fypmwyol ar gynllun, yn hytrach na dylunio da, wnaeth benderfynu lleoliad y MAC. Nid oes unrhyw reswm dylunio trefol cadarn i awgrymu fel arall. Y peth call i'w wneud fyddai cysidro gosod y MAC ym mlaen y safle a phellhau'r tai ychydig oddi wrth y ffordd, gan y byddai hyn yn adlewyrchu ochr arall y stryd. Yr unig ddewis derbyniol arall fyddai lleoli'r MAC yn ganolog o fewn y datblygiad.
 3. Nid oes gan y pentref fan chwarae ar hyn o bryd. Os am sicrhau y bydd y preswylwyr presennol a'r rhai newydd yn gallu defnyddio cyfleusterau o'r fath, dylai'r man agored cyhoeddus gynnwys cyfleusterau hamdden ar gyfer pob oed (e.e. man chwarae i'r plant). Nid oes cyfleusterau o'r fath yn y pentref ar hyn o bryd. Er gwaethaf yr hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddweud, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd datblygiadau eraill sy'n gallu darparu ardal amwynder cyfarpar yn y pentref yn dod ymlaen.
 4. Mae'r Cyngor Cymuned yn disgwyl i'r datblygiad gael ei dirweddu'n dda, gan ymgorffori plannu coed a gwrychoedd newydd (rhywogaethau brodorol). Dylai ffiniau blaen gynnwys waliau cerrig a / neu wrychoedd i gyd-fynd â chymeriad lleol.
 5. Mae'r Cyngor Cymuned yn falch o nodi y bydd y datblygwr yn ariannu rheolaeth am fwynderau cyhoeddus a ddarperir yn y datblygiad arfaethedig.
 6. Mae'r Cyngor Cymuned yn nodi fod Welsh Water Dŵr Cymru wedi mynegi pryder am fod y safle mor agos at y gwaith trin carthffosiaeth, ac mae hyn yn creu pryder i ninnau hefyd. Ar hyn o bryd mae'r gwaith triniaeth yn cael ei sgrinio'n wael gan res o gonwydd blêr. Hoffem weld ymdrechion i sgrinio'r gwaith o'r golwg ac i sicrhau na fydd yr arogleuon yn effeithio'n ormodol ar y trigolion.
 7. Nid yw'r ffyrdd o gwmpas y safle, yn enwedig y rhai sy'n ei chysylltu gyda'r ysgol gynradd a chanol y pentref, yn addas i gerddwyr. Rydym yn croesawu'r bwriad o roi palmant o flaen y tai, ond ni fydd hyn yn ddigonol ar gyfer sicrhau diogelu mynediad i fwynderau'r pentref. Yn benodol, dim ond ar hyd ffordd sydd heb derfyn cyflymder wedi ei restru y gellir mynd i'r ysgol. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, byddai'r Cyngor Cymuned yn hoffi gweld ymdrech i ddarparu palmant / troedffyrdd ychwanegol a / neu arafu traffig. Nodir bod yr ymgeisydd yn disgrifio'r ffordd fel 'gofod a rennir' ond mae hyn yn anniben. Nid yw diffyg darpariaeth cerdded a beicio diogel yn gyfystyr a 'gofod a rennir'.
- Mae'r Cyngor Cymuned yn edrych ymlaen at weld gwelliannau sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn, a byddem yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ymhellach yr adeg yna.
- C. Cais 16/2018/1157 – Codi adeilad amaethyddol yn Fferm Bathafarn, Llanrhydd – dim gwrthwynebiad.

14. GOHEBIAETH.

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth arall.

15. MONITRO CYFLYMDER DRWY'R PENTREF.

Amlinellodd y Cynghorydd Gruff Jones ei gynnydd hyd yn hyn:-

A: Mewn ymateb i'w ymgyrch ar Facebook, mae 7 o wirfoddolwyr wedi cynnig eu gwasanaeth hyd yn hyn. Gofynnodd y Cyng. Dave Ritchie i'w enw yntau gael ei ychwanegu i'r rhestr.

B. Mae'n cael dyfynbrisiau am ynnau cyflymder, yn dilyn cyngor gan Heddlu Gogledd Cymru ar y math o fodel i'w gael.

C. Mae'n cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru parthed trefnu cwrs hyfforddiant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Jones am yr hyn a wnaeth hyd yn hyn.

16. MATERION BRYD DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

Eitemau i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor:-

A: Ni fu trafodaeth ar ymestyn y cyfyngiad cyflymder o 30 m.y.a. ar hyd yr A494 yn Llanbedr i gyfeiriad yr Wyddgrug (Bob Barton).

B. Cinio Dydd Gŵyl Dewi – bydd y Cadeirydd yn trefnu'r digwyddiad, a bydd arno angen cymorth gan Gynghorwyr eraill yn ystod y dydd.

17. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 4 Chwefror 2019 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.

18. DAETH Y CADEIRYDD Â'R CYFARFOD I BEN AM 9.40 Y.H.